# HYSBYSIAD PENDERFYNIAD PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU
# CYNGOR GWYNEDD

## Adran 100C Deddf Llywodraeth Leol 1972

## 07/11/2024

## Cyfarfod Rhithiol

**Presenoldeb:**

**Y CYNGHORWYR:** Annwen Hughes (Cadeirydd)
Llio Elenid Owen (Is-gadeirydd)

Stephen Churchman, Elwyn Edwards, Elin Hywel, Beca Roberts, Delyth Lloyd Griffiths, Rhys Tudur, Linda Morgan, Arwyn Herald Roberts, Jina Gwyrfai, Robert Glyn Daniels, Peter Thomas, Rob Triggs a Gruffydd Williams.

**Swyddogion yn bresennol:**
Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu) a Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Yn bresennol ar gyfer Eitem 5:**
Dafydd Williams (Pennaeth Adran Amgylchedd), Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol, Adran Amgylchedd), Bob Thomas (Arweinydd Tîm Polisi Cynllunio), a Llywela Haf Owain (Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu).

**Ymddiheuriadau:**
Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Edgar Wyn Owen ac Elfed Powell Roberts.

**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU
CYNGOR GWYNEDD**

**Adran 100C Deddf Llywodraeth Leol 1972**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Cyfarfod PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU** | 07 Tachwedd 2024 |

---

**PWNC**

**Eitem 5: CYNLLUNIO A CHYMUNEDAU CYMRAEG**

---

**PENDERFYNIAD**

1. Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y drafodaeth.
2. Bod y Pwyllgor yn gofyn i Lywodraeth Cymru i adolygu 'Polisi Cynllunio Cymru' a 'Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 20: Cynllunio a'r Gymraeg' er mwyn sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn cael ystyriaeth briodol.
3. Gofyn i'r Cymdeithasau Tai ddarparu data i'r Cyngor er mwyn asesu gwybodaeth am yr iaith Gymraeg ym maes cynllunio.
4. Cydnadbod nad oes cymhwyster penodol wedi ei ddatblygu ar gyfer asesu effaith ieithyddol datblygiadau cynllunio. Argymell i'r Adran Amgylchedd a'r Uned Iaith y dylid cysylltu gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Phrifysgol Bangor i'w hannog i ddatblygu hyfforddiant addas. .
5. Dylid atgoffa Cynghorau Cymuned a Thref o'u rhyddid i gyflwyno sylwadau am effaith ieithyddol posib gall datblygiadau cynllunio lleol ei gael ar yr ardal.
6. Dylid ystyried cynnal hyfforddiant cynllunio ieithyddol i Gynghorwyr er mwyn eu galluogi i gynorthwyo Cynghorau Cymuned a Thref i gyflwyno sylwadau ar effaith ieithyddol datblygiadau cynllunio.

---

**CANLYNIAD Y BLEIDLAIS**

| | |
|---|---|
| O Blaid | 14 |
| Atal | 0 |
| Yn Erbyn | 0 |

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL**

Derbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan y Cynghorydd Rhys Tudur gan ei fod wedi bod yn aelod o Comisiwn Cymunedau Cymraeg yn y gorffennol. Nid oedd yn fuddiant sy'n rhagfarnu ac ni adawodd y cyfarfod ar gyfer y drafodaeth.

---

**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU**
**CYNGOR GWYNEDD**

**Adran 100C Deddf Llywodraeth Leol 1972**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Cyfarfod PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU** | 07 Tachwedd 2024 |

---

**PWNC**

**Eitem 8: BLAENRAGLEN PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU**

---

**PENDERFYNIAD**

**Penderfynwyd:**

1. **Rhaglennu'r eitemau canlynol:**
    - **'Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur: Adroddiad Blynyddol 2023/24' ar gyfer cyfarfod 23 Ionawr 2025.**
    - **'Toiledau Cyhoeddus' ar gyfer cyfarfod 20 Mawrth 2025.**
2. **Mabwysiadu rhaglen waith diwygiedig ar gyfer 2024/25.**

---

**CANLYNIAD Y BLEIDLAIS**

| | |
|---|---|
| O Blaid | 13 |
| Atal | 0 |
| Yn Erbyn | 0 |

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---